

Ar y We

Flynyddoedd maith a mwy yn ôl
pan oedd rhieni'n fychan,
roedd ganddynt lyfrau i'w helpu nhw
llyfrau . . . a dyna'r cyfan.

Wrth chwilio am bob ffaith trwy'r byd
roedd rhaid mynd draw i'r llyfrgell,
a chwilio trwy bob silff a llyfr,
pob paragraff a llinell.

Brawddegau llonydd oedden nhw
na allech chi eu clicio,
a lluniau llonydd a di-liw'n
gwneud dim ond aros yno.

Ond pob gwybodaeth sydd gen i,
mae nawr ar flaen fy mysedd,
a gallaf fynd mewn dim drwy lyfr
o'i ddechrau draw i'w ddiwedd.

A lluniau newydd sydd gen i
o haul a sêr a lleuad,
y maen nhw'n symud o fy mlaen
ac mae fy lluniau'n siarad.

Pa bethau newydd fydd i'n plant
r'ym ninnau nawr yn holi,
flynyddoedd maith a mwy ymlaen
pan fyddwn *ni'n* rhieni.

PDF Created with deskPDF PDF Writer - Trial : http://www.docudesk.com